YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 9 MEDI, 1924. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD. .

ESTYN DY RAFFAU A GYR ADREF DY HOELION.

Y CYFNOD CENHADOL.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

PRYDDEST GOFFA.

YSBRYDOLIAETH PAUL.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Newydd ddod allan o'r Wasg.

"Cerddi Newydd Crwys"

Llian 3/6. Amlen Bapur 2/6. Cludiad 3c.

Anfoner am Gopiau i
SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

—AIL GASGLIAD O—

EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR ❊ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 9.

"ESTYN DY RAFFAU A GYR ADREF DY HOELION."

(*Annerchiad draddodwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llywydd y Gymdeithas Undodaidd yn Llwynrhydowen, Awst 13eg, 1924*).

Deffiniodd rhywun Undodwr fel "dyn nad yw wedi dywedyd ei air olaf," ac y mae'n awgrymiadol oherwydd ei fod yn ein codi ni o'r hen rigolau. Ar y llaw arall y mae'r Golomen yn Llyfr y Tri Aderyn yn mynegi ein hysbryd ni,—"Na chais ystwytho cydwybod neb i'th opiniwn di drwy rym ond drwy reswm, a chadw heddwch i bob un i ddywedyd ei feddwl os heddychlon yw."

Y mae bellach dros chwe' ugain mlynedd er i'r Parch. Josiah Rees draddodi pregeth gyntaf y Gymdeithas hon wedi iddi ymgorffoli fel Cymdeithas Lyfrau y Dwyf-Undodiaid yn Neheubarth Cymru yng Nghastell Nedd yn 1802, ond awgrymai Gwilym Marles "that ye old Arminian congregations, such as Llwyn and Alltyplaca and Caeronen, used to have Quarterly Meetings before ye Unitarians and for some time collaterally, until recently ye latter absorbed ye former." Beth bynnag am hyn, traddodwyd annerchiad cyntaf y Llywydd gan y diweddar Hybarch Thomas Thomas ar y 4ydd o Orffennaf, 1895, yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Enwad ym Mhontypridd.

Diddorol iawn fuasai trem i'r gwyll yn llaw Hanes, ond nid dyna'r llwybr heddyw er cofio a ddywedodd rhywun,—"Athraw yw Hanes. Yr ydym yn cerdded fraich ym mraich a'n cyndeidiau, ac os llwyddwn i flaenu ychydig arnynt, y mae yna dynnu'n ol—a backward pull." Eto myn y Llwyn gyfeirio fy meddwl.

Teimlid yr ysbryd rhyddfrydig yn fore yma, ac o ddarllain yr Halsingod a'r Carolion a ganwyd yn nyffryn Teifi rhwng 1680 a 1720, teimlir fod yma yr adeg honno rhyw naws rhyddfrydig hyfryd. Gyda llaw, y mae'n ddiddorol gwybod mai ar lyfr hen ôf o'r ardal yr ysgrifenwyd llawer ohonynt, ac yntau'n aelod gyda ni. Canwyd llawer o honynt ar batrwm Canwyll y Cymry, ac ynddynt y gwel y neb na fyn ddyfod pob da o Loegr un o nentydd gloywaf yr Emyn Cymraeg [a rhwng cromfachau y mae'n rhywbeth mwy na chyd-ddigwyddiad fod Canwyll y Cymry, yr Halsingod a'r Carolion, ac Emynau Pantycelyn, wedi'u canu'n yr un ardaloedd ac yn perthyn i'r un traddodiad llenyddol].

Gwreiddir hefyd yn yr hen Halsingod eiriau Simon Thomas yn Histori yr Heretic Pelagius, "Ac o'r amser hwnnw (*Amser Siarl yr Ail*) hyd y pryd hwn, gweinidogion Eglwys Loegr ydynt Arminians oddieithr ymbell un yma ac accw."

Nid oes angen ond ffaith neu ddwy er gweled â golwg glir. Yn 1662 pasiwyd Deddf Unffurfiaeth, a throwyd allan "Y Ddwy Fil," fel y'u gelwir, ac am ddeng mlynedd bu erlid o'r newydd cyn i Siarl yr Ail roddi trwyddedau *ar ei awdurdod ei hun.* Y mae 1672 yn bwysig. Dyma ddechreu Anghydffurfiaeth (a chofier nad oes Anghydffurfiaeth yn Nghymru mwy), canys o roddi trwyddedau iddynt y dechreuasant deimlo y medrent sefyll ar wahân, a daeth Goddefiad yn 1689.

Un o'r tai drwyddedwyd ydoedd ty gwidw o'r enw Jenkins ym Mhencader at wasanaeth Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin. Rywbryd wedi hyn dechreuodd bregethu ym Mhantgwyn, a gwnaeth hynny hyd ei farw yn 1688. Wedi'i farw symudodd y gynnulleidfa fechan i Bantycreuddyn, ger Gellifaharen, lle codwyd capel bychan tua 1700. Tua 1702, symudodd y Parch. William Evans oddiyma, ac am reswm da, ellid tybio, fel y dywed hen lawysgrif,—"has not recd. from ye congregations above 15s. in two yeares time" Tan weinidogaeth ei olynydd, y Parch. James Lewis, y dechreuwyd anesmwytho.

Flynyddoedd cyn yr anesmwytho y bu'r ymrafael yn Henllan ar linellau ysgarmes Llundain ac Ecseter. Nid oedd y cyfan ond canlyniad naturiol a rhesymol y mudiad a gynrychiolid gan Bacon ym myd Gwyddor, Descartés ym myd Athroniaeth, Whichcote ac eraill ym myd Crefydd, a chofier, yr oedd dylanwad Locke a Whiston a Clearke yn ysgubol yn nechreu'r ddeunawfed ganrif.

Tosturi, ac nid cerydd, a deilynga Haneswyr yr enwadau am bardduo ein hardal. Deillion oeddent na fynnent wel'd. Mewn erthygl yn yr *Efrydydd* (Hydref 1922), ceir y Prifathro Thomas Rees, M.A., yn anwybyddu'r parddu ac yn ceisio'n onest esbonio. Y mae'n sôn am y Diwygiad ac am Reswm yn hawlio'i le drachefn mewn modd yr un mor naill ochrog. Dyma'i eiriau:—"Dilynwyd yr Adfywiadau Methodistaidd yng Nghymru yn nechreu'r 19eg ganrif, gan y mudiadau Rhyddfrydig, Arminiaeth, ac Undodiaeth, nad oeddynt yn wir ond dwy agwedd ychydig yn wahanol ar yr un peth, sef yr elfen resymol, foesol, a dynol yn y byd ysbrydol yn codi mewn protest yn erbyn gormes y goruwch-naturiol a'r duedd Bantheistaidd mewn Uchel Galfiniaeth. Aeth y brotest ryddfrydig trwy holl fywyd crefyddol Cymru, hyd at gynteddau nesaf i mewn Calfiniaeth, ond cymerodd ffurf weledig yng nghyfodiad Wesleaeth yng Ngogledd Cymru ac Undodiaeth yn y De."

Dyna'r llèn! Dyna'r Cynfas! Ac yr wyf am daflu rhyw dri darlun o'ch blaen arno, er dwyn y cyfan yn fyw i'ch golwg.

* * * * * * *

Yn hen Gapel y Llwyn y mae "maen yn llefaru o'r mur"—"Deus nobis haec otia fecit 1733" a beth a ddywed? Dywed fod ym Mhantycreuddyn yn 1726 wr ieuanc o'r enw Jenkin Jones, wedi ei eni rhyw 26 mlynedd yn gynt yn Nhrafle, plwyf Llanwenog, a oedd yn beiddio meddwl a thorri cyffion—beiddio protestio ac aeth "seithwyr da eu gair" o Bantycreuddyn. Dywed yr hen faen fod ganddo ddigon o ganlynwyr erbyn 1733 i godi capel ac nid pabellu mewn tai annedd hwnt ac yma, ac y mae enw Jenkin Jones, o'r Wernhir, yn annwyl gennym, oherwydd dyma'r Arminiad cyntaf i gyhoeddi'i neges o bwlpud Arminaidd yng Ngbymru, a rywsut, o feddwl am yr hen gapel cyntaf, cofiaf am eiriau Dr. Hillis:—"Great Institutions are the shadows that great men cast across the centuries," a charaf edrych ar hen gapel y Llwyn fel cysgod Jenkin Jones ar draws y canrifoedd.

Ni aroswyd gyda marw Jenkin Jones yn 1742. Nid ydoedd ond Arloeswr. Nid oedd wedi dywedyd y gair olaf—*he had not said the last word.*

Nid oes amser i sôn am David Lloyd, Brynllefrith, er na bu'i alluocach hwyrach ym mhulpud y Llwyn. Heb fod nepell oddiyma y mae'r hen dderwen, a thani yr ordeiniwyd Dafis Castellhywel yn 1773 (ac os gwir yr hanes, gyda llaw, byddai'n werth i gynulleidfa'r Llwyn brynu'r hen dderwen hon, oherwydd rywle yma oedd y Wernhîr). Gwnaeth Castellhywel fwy nag odid neb i oleuo'r ardal. Nid yw'n debyg iddo gerdded yr un *cam* yn nes ymlaen na Dafydd Llwyd; mewn gair, yn rhy araf y cerddai. Ariad ydoedd hwyrach, ac yn 1821–1802 wele'n ymrannu'n y Llwyn. Ymedy nifer o aelodau, a than Dr. Charles Lloyd y maent yn ymsefydlu'n Eglwys Undodaidd Pantydefaid, ond cofiwch y deffiniad—*y dyn nad yw wedi dywedyd ei air olaf.*

Ymhen rhyw hanner canrif y mae'r Llwyn eilwaith yn mynnu blaenori, ac yr wyf am i chwi ddyfod i risiau hen Gapel y Llwyn ar Sul, y 22ain o Hydref, 1876. Cant o hanner o flynyddoedd wedi i Jenkin Jones brotestio yn erbyn gormes, a chyda llaw, cymerth cynulleidfa Llwyn gant a hanner o flynyddoedd i gerdded o Galfiniaeth i Undodiaeth.

Cewch weled yno wr dwy a deugain oed yn annerch torf o dair mil—nid cynnulleidfa o dri chant, ïe, ac o risiau'r fynedfa, ac nid o bwlpud. O'i ol y mae cloion dur yn sôn am ormes a throi allan—ond nid at y "troi allan" y ceisiaf eich sylw, ond at y ffaith iddo arwain cynnulleidfa o'r hen Undodiaeth—Undodiaeth Priestley a Belsham—i Undodiaeth newydd Parker ac eraill. Llosgodd ei gannwyll yn gynnar gynnar, a daw ei bennill olaf atom megis gwawr gyda'r gwynt ar fraich amser:—

"Unwaith mi gefais weled
Y demel brydferth hon,
Ac edrych ar ei harddwch,
Llawenydd yw i'm bron;

Ond pan yr wyf yn cofio
Yr hen adeilad lwys,
Daw dagrau i fy llygaid,
A chwyd ochenaid ddwys."

Gorwedd yr hyn sydd farwol o'r anfarwol Wilym Marles gerllaw, ond yng ngeiriau'r hen gân, "His soul goes marching on." Beth ddywed Jenkin Jones a Chastellhywel? Beth ddywed Charles Lloyd a Gwilym Marles? Dim ond hyn. Dywedant mai gwir y deffiniad—"Undodwr yw'r dyn nad yw wedi dywedyd ei air olaf—the man who hasn't said his last word."

Yngoleuni'r gorffennol felly, yr wyf yn ceisio gennych i synfyfyrio ennyd ar frawddegau'r testun :—

"Estyn dy Raffau a gyr adref dy hoelion."

* * * * * * *

Y mae'r darlun yn glir. Gwyddai'r awdur am godi pabell—gwyddai fod angen ei helaethu ambell dro, ac y mae'n awgrymu'r ffordd i wneuthur hynny. Y mae'n estyn y rhaffau ; y mae'r straen yn fwy ; y mae'r gwynt yn codi, ac os yw'r babell i ddal, nid oes dim am dani ond gyrru adref y *tent-pegs*

Dyna'r ddameg. Am heddyw caiff ein mudiad ni fod yn babell. Onid ydym wedi dywedyd y gair olaf? Y mae'n rhaid estyn y rhaffau—y mae'n rhaid eangu'r mudiad ; ac o estyn y rhaffau rhaid gyrru adref yr hoelion ; mewn gair, rhaid ini wrth gerdded ymlaen yrru adref yr egwyddorion.

Cyn trin y testun rhaid sylwi ar ddau osodiad pendant, er fod perigl mewn crwydro.

Sylwa y Parch. H. D. A. Major, Golygydd y *Modern Churchman*, fel hyn :—"The declining influence of the Church is to be found in the declining quality of the Clergy." Geilw y Parch. Arthur Pringle, Llywydd yr Annibynwyr, sylw "at the widespread suspicion of the honesty of the Pulpit"; tra dywed Dr. Glover, Llywydd y Bedyddwyr :—"If we are effectively to preach Christ, we must secure that he is not in the minds of thinking people associated with antiquated scholarship or discredited science."

Nid teg yw i ni anwybyddu'r gosodiadau pendant hyn, ac nid oes gennym fel gweinidogion Undodaidd yr un esgus ond diogi a diffyg ymdrech tros fod tan y cyhuddiad, a gwae'r gredo neu'r gyfundrefn sy'n caethiwo meddwl nes peri i unrhyw weinidog neu offeiriad bellach fod yn *anonest* iddo'i hunan, i wirionedd, ac i Dduw.

Dywed awduron Diwinyddiaeth yng Nghymru yn Nhraethodau'r Deyrnas :—"Y mae dyddiau systemau awdurdodol ac Eglwysig o ddiwinyddiaeth wedi myn'd heibio am byth. Os cedwir hwy fel *historical documents*, cydnebydd pawb fod pob gofal a dylanwad oedd ganddynt ar feddwl a chydwybod y weinidogaeth, er engraifft, wedi diflannu."

Darllenais am rywun am bregethu fel "a dying man to dying men." Yr oedd am onestrwydd a chyfrifoldeb gwely angau i'w bregethu, a chofir, yr oedd rhywbeth ym mhregethu y cedyrn gynt cyn i Lecky ddywedyd am bregethau John Wesley:—"Wesley's sermons are of greater historic importance to England than all the victories by land and sea under Pitt."

Os oes yna rywbeth, os oes yna ryw draddodiad yn rhwymo'r meddwl, yr wyf yn barod i weddïo gyda'r bardd:—

"Rhag gwrando ar dwyllodrus air
Hen ddynion wedi oeri'n gwaed,
D'erlidwyr Di,
Crist, gwared ni!"

Frodyr, y mae'n ddifrifol os ydyw'r cyhuddiad yn wir. O feddwl am dano dychmygaf wel'd yr hen gewri gynt heb ddegwm o'n manteision ni, arweinwyr ym myd Crefydd yn myn'd heibio, ac o'u gwel'd gofynnaf:—"Are we big enough? Have we the courage to re-affirm for this new age, and in the widest way we know the great principles of our inspiring faith in God and man." Rhagor na hynyna, myn Dr. Selbie mai "Marking Time," "Safety First," yw'n harwyddair, tra deil y Deon Inge ein bod yn byw ar *gapital* yr oes o'r blaen.

Y mae gwir yn y ddau osodiad, ys dywedai Fisher yn "The Common Weal":—"The strain of war has produced a natural exhaustion. For the most part men are desirous of living quietly."

Fe welir hyn, i'm tyb i, hyd yn oed ym myd gwleidyddiaeth. Y mae gwledydd yn barotach, rywsut, i blygu i *Ddictator* na chynt. Y maent wedi blino ennyd, a dyna'r teimlad sy'n myd Crefydd. Rhyw *re-action*, rhyw droi wyneb yn ol, rhyw aros, rhyw fodloni ar bethau fel y maent, rhyw *Marking Time* ydyw, *respectability* yn cloffi'r ysbryd mentro oedd yn y teidiau gynt. Canfu Dr. Martineau flynyddoedd lawer yn ol fod yr afon yn dechreu llonyddu pan ddywedodd: "The great mass of our congregations are as much wedded to their type of 'orthodoxy" as the professors of the Westminster Confession of Faith to their ampler formulary."

Gwyr y neb a wyr rywbeth am arian nad oes dim yn fwy dinistriol na byw ar y capital, a'r funud yr awn ninnau i fyw ar brofiadau'r teidiau heb eu teimlo, byw ar gapital moesol ac ysbrydol yr oes o'r blaen yr ydym yn peidio a bod yn Undodiaid oherwydd byddem felly wedi dywedyd y gair olaf. Ni byddem felly ond yn y trydydd cyfnod ys dywedai'r Athro W. J. Gruffydd, "lle pery'r arwyddeiriau a banllefau'r gâd yn siboleth yr anturiaethwyr."

Nid oes hawl gennym i dreulio'n hoes drwy *marking time*. Nid oes hawl gennym fel afradlon fyw ar *gapital* yr oes o'r blaen. Rhyw fenter ydyw pob mudiad. Yng ngeiriau'r Athro Jacks, "A Religious Movement does not stand for anything, but moves towards something the full nature of which is never known till it is reached."

I'w barhau)

Y CYFNOD CENHADOL.

Y cyfnod cyntaf ym mywyd Paul fel Cristion oedd y cyfnod Cenhadol. Cyn gynted ag y dychwelwyd ef ymaflwyd ynddo gan y dymuniad i bregethu ei efengyl newydd. Efengyl oedd, hynny yw, *newydd da* ; ac mae pob un a glyw ddarn o newydd da'n dymuno ei adrodd ; y fath hyfrydwch sydd mewn mynegi'r hyn a wna bawb yn ddedwydd ! Adweithia gorfoledd y genadwri ar y dygiedydd ohoni, ac ymddengys iddo ei hunan ac i eraill yn ogoneddus yn y dedwyddwch a gyfranna. Nid haelioni, gan hynny, yn unig yw'r hyn a gymell dynion i gyhoeddi efengyl, ond gall hyd yn oed hunan-gariad wneud iddynt fwynhau'r enwogrwydd a ddyry iddynt. Mor wir yw geiriau y proffwyd : "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu, yn cyhoeddi heddwch ; a'r hwn sydd yn mynegi daioni."

Mae'n hyfryd bob amser ddwyn newydd da ; ond pan mae'r newydd da hynny nid yn unig yn gwneud dynion yn fwy dedwydd ond hefyd yn well,—pan ddwg wellhad i glefydau'r enaid, iechyd i gymdeithas ddadfeiliedig, bywyd newydd i fyd yn marw,—y fath orfoledd yw bod yn ddygiedydd y fath newydd da ! Gan hynny, meddai Paul, "Gwas fyddi i mi oni phregethaf yr efengyl." Byddai iddo ef yn anffawd ac yn ofid calon rhoddi i fyny y gwaith a'i dinoethai i gymaint casineb, erledigaeth, llafur, a dioddefaint. Gallai ddioddef yr oll hyn,—yn cael ei dalu'n helaeth gan gariad diolchgar ei ddychweledigion, a'r ymwybyddiaeth o wneyd cymaint o ddaioni.

Beth oedd swm ei efengyl, a phaham yr oedd y fath newydd da? Yr oedd yn gynnwysedig mewn fod y Messia Mawr, Brenin Heddwch a Chyfiawnder hir-ddisgwyliedig, o'r diwedd wedi ei eni ; a'i fod wedi myn'd drwy y dioddefiadau a'r farwolaeth rhag-weledig a rhag-ddywededig gan y proffwyd ; ei fod wedi atgyfodi i fywyd uwch, ac y byddai iddo'n fuan ymddangos fel Mab Duw a Mab Dyn. Ei fod wedi anfon allan ei Apostolion i alw dynion i'w Deyrnas, lle gallent gaffael maddeuant, tangnefedd, a gobaith. "Credwch yn Iesu fel y Crist, Mab Duw, a gesyd Duw ei ysbryd i'ch calonnau, drwy'r hwn y dywedwch, Dad ! Yna byddwch ddiogel rhag pob perygl a niwed yn nwylaw Duw amddiffynnol,

Yr oedd oes trais, creulondeb, gormes, gerllaw ei diwedd. Yr oedd oes newydd Tangnefedd, Purdeb, Cariad, oddeutu dechreu. Dim rhyfedd y llenwid y rhai a gredent yn y broffwydoliaeth hon, a deuent yn ddeiliaid y Brenin newydd.

Ond paham y credent hi ? Paham y derbyniai y Cenhedloedd hyn—Groegwyr a Rhufeiniaid, Fessia Iddewig ? Yn gyntaf, am ei bod yn oes ddigred, yn yr hon yr oedd yr hen gredoau wedi marw allan, ac wedi gadael gwacter. Mae cyfnod o'r fath yna'n hiraethu am rywbeth i'w gredu, ac mae'n barod i ddderbyn rhywbeth a ddyry fywyd newydd i'w hysbryd marw. A'r rheswm arall oedd nerth argyhoeddiad yr Apostolion Iddewig hyn. Mae gan y dyn a greda bob amser ddylanwad mawr ar y dyn digred. Cynhyrchir ffydd gan ffydd. Yr oedd gan yr Apostol Paul y nerth argyhoeddiad yn y radd uchaf, wedi ei ryddhau oddi wrth blisgyn caled defod Iddewig. I ba le bynnag yr ai, gwelai dynion ynddo ef un i'r hwn yr oedd y ffydd fwyaf hawddgar yn fwy sylweddol na'r byd allanol ; i'r hwn yr oedd y pethau gweledig yn fyrhoedlog a darfodedig, a phethau anweledig yn sylweddol a thragwyddol.

Gosodiad sylfaenol Paul, prif osodiad ei bregethu, oedd hyn : "Iesu o Nasareth yw y Crist, Mab Duw." Beth oedd ystyr a gwerth y gosodiad hwn ? Y ffydd Iddewig mewn

Messia, neu'r Crist oedd mewn un i ddyfod, yr hwn a gyfunai y swyddi proffwyd, offeiriad, a brenin. Pwysleisid weithiau ar un, ac weithiau ar arall,* o'r syniadau hyn. Pan ddelai y Messia hwn, terfynnai'r oes bresennol, a dechreuai'r oes newydd. Yn yr oes nesaf, yr oes i ddyfod, rheolai cyfiawnder dwyfol, gorchfygai heddwch ryfel, gorchfygid drygioni gan ddaioni. Gan hynny gelwid yr oes ddyfodol yn "Deyrnas Dduw" a "Theyrnas Nefoedd." Disgrifiai y proffwydi Iddewig ogoniant yr amser agoshaol hwn, a ddygid i mewn gan ymddangosiad y Messia, ar ddiwedd yr oes bresennol mewn iaith gref.

Yr Oes Ddyfodol oedd gobaith mawr a disgwyliad y bobl Iddewig. Dyna destun eu llenyddiaeth ddatguddiadol. Trwytha y Testament Newydd. Dyna brif destun dysgeidiaeth Iesu. Gesyd y Bregeth ar y Mynydd i lawr ddeddfau ac ysbryd yr oes newydd—Teyrnas Nefoedd. Try y damhegion, gan mwyaf, ar natur Teyrnas Nefoedd.

Cytunai'r Iesu'n hollol a'r athrawon Iddewig fod yr hen oes ar ddyfod i ben, a'r oes newydd oddeutu dechreu; fod Teyrnas Nefoedd gerllaw,—yn y byd hwn a'r bywyd presennol. Deisyfiad canolog Gweddi'r Arglwydd yw, nid ar fod ein heneidiau i gael eu hachub yn y bywyd dyfodol, ond ar fod i Deyrnas Dduw ddyfod yma, ac i'w ewyllys gael ei gwneud ar y ddaear, gan wneud y nefoedd isod fel y nefoedd fry. Gwahaniaethai oddiwrth flaenoriaid Iddewig yn unig mewn perthynas i nodwedd a dulliau y Deyrnas. Credent hwy mai un allanol a gwleidyddol oedd yn cael ei dal i fyny gan arwyddion gwyrthiol, a gallu dwyfol. Disgwylient hi fel teyrnas, fel teyrn Rhufain; ond yn unig byddai gallu'n nwylaw'r Cenhedloedd—yr Iddewon yn feistriaid a'r Rhufeiniaid eu caethion. Yr oedd dysgeidiaeth Iesu'n hollol wahanol i hyn. Yr oedd yr oes i ddyfod. Teyrnas Nefoedd i fod yn deyrnasiad cariad a gwirionedd, nid gallu ac awdurdod. Ni sefydlid hi gan arwyddion a rhyfeddodau gwyrthiol. "Cenhedlaeth mwy sydd yn ceisio arwydd." Bendithiai ei eiriau cyntaf ef "y tlodion yn yr ysbryd," "yr addfwyn," "y pur o galon," "y tangnefeddwyr." Nid oedd "ei ddyfodiad," neu amlygiad fel Brenin, yn ddyfodiad allanol a lleol, ond mewnol a threiddiol,—y gallu a ddeilliai oddiwrth ei wirioneedd i argyhoeddi a throi y byd. Nid oedd i fod "Wele yma!" neu "Wele acw!" ond tufewn iddynt yn eu canol,—ac yr oedd i ddyfod yn ddistaw fel y gwlaw a'r gwlith o'r nefoedd. Dywedodd wrth Pilat ei fod yn Frenin am y deuai i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd. Yn ei ymdrech i argyhoeddi y blaenoriaid Iddewig mai un ysbrydol o'r fath yna oedd gwir Deyrnas Dduw yr aeth ef i'w farwolaeth—yn hyderus, sut bynnag, mai trwy ei farwolaeth y c'ai y llywodraeth ddwyfol hon ei chyflawni: "A minnau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun."

Hon oedd yr athrawiaeth gan y cenhadon,—gan Paul i'r Groegwyr, a chan Petr i'r Iddewon. Yr oedd oes fawr heddwch a gwirionedd gerllaw, ac yr oedd yr Iesu, y Croeshoeliedig, i ymddangos fel Brenin cyfiawnder a chariad. Yr amod o ddyfod yn aelod o'r Deyrnas hon oedd ffydd yn Iesu fel y Crist; hynny yw, ffydd fod gwirionedd a chariad i orchfygu trais, ac fod yr hwn a fu farw dros eraill, i ddyfod yn athraw dynolryw. Gan hynny, yr oedd yn rhaid i bawb a enwent enw Crist ymado oddi wrth ddrygioni; canys nid pob un a ddywed wrth Iesu, Arglwydd! Arglwydd! a ä i mewn i'w Deyrnas, ond y rhai a wnant ewyllys ei Dad Nefol.

Nid oedd dyfodiad Iesu fel y Crist, Mab Duw, yn unrhyw "ail ddyfodiad" Yn ystod ei fywyd nid oedd Iesu wedi dyfod fel y Crist, y Brenin; yr oedd ef i ddyfod, felly, drwy ei atgyfodiad, a dyfod yn ffynhonnell bywyd a dylanwad i'w

holl ganlynwyr. Pan y gwelid mai Crist oedd, a phan y cydnabyddid fel y cyfryw gan Iddew a chenedl-ddyn, byddai hyn ei eglurhad, ei ddatguddiad, a'i ddyfodiad.

Diau y credai Paul a'r Apostolion eraill, y byddai y dyfodiad hwn yn un rhwysgfawr, gydag arwyddion a rhyfeddodau ar ddaear a nefoedd; mae'n amlwg y rhoddent, o leiaf ar y dechreu, ystyr lyth'rennol i'r ffigyrau a'r meddyl-ddrych drwy'r rhai y disgrifiai eu Hathraw a'i ddyfodiad.

Nid oes amheuaeth nad arddangosai'r Iesu yn ei ymddiddanion fel yn rhagfynegi y rhyfeloedd a orffennwyd gyda chwymp Jerusalem a dinistr y Deml. Cymer rhai beirniaid yn ganiataol nas gellid gwneud y fath ragfynegiadau ganddo ef, a'u bod wedi eu hysgrifennu ar ol i'r digwyddiadau a ddisgrifir felly gymeryd lle. Ond, gall yr hwn a wel y presennol hefyd ragweled y dyfodol.

Nid oedd yn rhaid i'r Iesu wrth ddawn gwyrthiol proffwydoliaeth i rag ddywedyd gwarchae a dinistr agoshaol Jerusalem a'i Theml. Nid oedd raid iddo ond yn unig y gallu hwnnw i ddarllen arwyddion yr amserau y beiai ef yr Iddewon am beidio ei arfer.

Dygodd dinistr Jerusalem a'r Deml i derfyn oes Moses a'r Ddeddf, a dygodd i mewn yr oes newydd,—Teyrnas Nefoedd, Teyrnas Cariad. I lawr i'r amser hwn crefydd Moses oedd ffydd arweiniol y byd, man uchel undduwiaeth, y brif ffaith yn hanes crefyddol yr hil ddynol. Ond gyda dinistr y Deml, a diwedd aberthau, ail osodwyd y Ddeddf gan yr Efengyl. Daeth crefyddau cenedlaethol i derfyn, a chymerodd crefydd dynoliaeth eu lle.

Daeth Duw, yr hwn oedd o'r blaen yn allu, yn ddeddf, yn enw, —yn gyfaill a thad. Yr oedd y Crist, ei annwyl Fab, yn ymyl, o'r tu ol i'r llen, yn ysbrydoliaeth a chysur, yn gynorthwywr ac arwein ydd. Yr oedd gan y byd o'r diwedd Ffydd!

C.C.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas yn Llwynrhydowen dyddiau Mawrth a Mercher, Awst 12 a 13. Cafwyd hin ffafriol a chynulliadau da, yn enwedig nawn a hwyr Mercher yr oedd y capel yn orlawn a chyrddau ardderchog ymhob ystyr. Credaf fod pawb yn falch eu bod yno, yr oedd y canu, y pregethu, y gwrandaw, a'r gyfeillach yn gyfryw fel ag i gynyrchu awyrgylch nas gallai lai, dybiem ni, na bod yn fendith fawr. Wedi'r cyfan fe berthyn i'n heglwysi lawer o ffyddloniaid, lawer ag sydd yn caru'r achos, a diolch am danynt. Pa faint bynnag o lacrwydd a diffyg gwres a deimlir yn ein heglwysi a'n hysgolion Sul, a diameu fod yna lawer gormod, rhaid i ni beidio mynd yn ddall i'r ffyddlondeb a'r brwdfrydedd a ddangosir gan rai, rhaid i ni beidio bod yn ddiystyr ac anghofus o garedigion yr achos. Y maent, fel mae gore'r modd, yn llawer.

Daethant yn lluoedd i'r Cyrddau Blynyddol. 'Doedd nemawr i eglwys yn y cylch, os oedd un, heb nifer yn yn eu cynrychioli. Yr oedd rhai o honynt wedi dod wyth, rhai deg, a rhai ragor o filldiroedd, yn wir gwelsom un wedi dod bob cam o Rhydaman; ac nid yn unig fe ddaethant ond daethant a llond y galon o frwdfrydedd, a chredwn mai nid y "trip" ond yr awydd am wledd grefyddol a'u gyrrodd a chredwn hefyd na'u

slomwyd hwynt. Fe gafwyd gwledd a diameu fod llawer wedi teimlo fod y nef yn agos atynt y dwthwn hwnnw ac fod capel Llwynrhydowen, capel a saif yn dyst i ffyddlondeb a dewrder y tadau, wedi bod yn "borth i'r nefoedd" iddynt.

Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fawrth gan y Parch. Arthur Thomas, a phregethwyd gan Mr. J. D. Jones, B.A., Myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin a'r Parch. S. E. Bowen, Crumlin, Iwerddon. Dwy bregeth dda; a barnu oddiwrth y pregethau hyn mae i Mr. Jones ddyfodol defnyddiol fel pregethwr tra mae Mr. Bowen yn parhau'n feddyliwr clir ac yn Gymro gloew. Bore Mercher dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Conwil Evans, ac yna cafwyd annerchiad gan y Parch. D. Evans, Capelygroes ar "Undodiaeth, ol-olwg, amgylch-olwg, blaen-olwg." Hanesyddol yn benaf oedd yr anerchiad: adgofiai ni'n ddwys o'n dyled i'r goffenol ac awgrymai fesur ein cyfrifoldeb. Carem ei gweld ar dudalennau YR YMOFYNYDD.

Dechreuwyd gwasanaeth y prynhawn gan y Parch. Lewis Williams. Yna traddododd y Llywydd, y Parch T. Oswald Williams, M.A., ei anerchiad. Anerchiad galluog yn ffitio'r dydd a'r lle, ac yn apelio'n daer am ein goreu. Gweler yr annerchiad yn y rhifyn hwn. Datganodd Mr. T. G. Thomas, Talgarreg ddiolchgarwch y cwrdd i Mr. Williams am dano. Dilynwyd hyn a phregeth gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, yr hwn a dynnodd wersi buddiol ac amserol o gyfnod ym mywyd Abraham.

Dechreuwyd oedfa'r hwyr gan Mr. J. D. Jones, a phregethwyd gan y Parchn. D. Cellan Evans a Lewis Williams. Wrth wrando ar Mr. Evans cwynem ei fod ef, fel llawer ereill o'n bechgyn, wedi gadael Cymru am bwlpud yn Lloegr. Ei fater oedd y bywyd eangach, a thrinlodd ef yn fedrus.

Diweddodd Mr. Williams gyfres ragorol iawn o gyrddau gyda phregeth agos ond grymus ar Cornelius y gwr defosiynol y sonir am dano yn Actau x; 1—4.

Gwnaethoch yn dda i gyd frodyr a theimlwn yn dra diolchgar i chwi. Yr oedd y Parch. Simon Jones i bregethu ond blin gennym i afiechyd ei luddias i gyflawnu ei addewid. Eiddunwn iddo adferiad buan.

Cawsom gwmni yr Hybarch. R. C. Jones, Llanbedr a'r Parch. H. H. C. Jones, Caerdydd—un o blant y Llwyn. Gwnaeth cynulleidfa'r Llwyn, yn enwedig y boneddigesau yr oll allesid ddymuno i borthi a chroesawu yr ymwelwyr, tra y bu Miss Jones, Gelli faharen, Miss Sally Jones, Cletwr Villa a Miss Mallie Davies, Dewi Villa yn ffyddlon gyda'r organ.

Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd y Pwyllgor Blynyddol yn Llwynrhydowen bore Mercher, Awst 13, pryd yr oedd nifer luosog o gynrychiolwyr yn bresenol. Llywyddwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

Darllenwyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol ac fe'u cadarnhawyd. Fe wnawd y "Grants" canlynol:— £5 i Capelycwm; £5 i Pant-teg. Hyd at £5 tuag at gynnal gwasanaethau ym Mharcyvelvet os bydd galw am gynorthwy. £1 1s. i'r Gymdeithas Undodaidd Frydeinig a Thramor. £1 1s. i'r "National Conference." £20 i Drysorfa y Llyfr Emynau. Y tal arferol o £12 i Olygydd YR YMOFYNYDD. Cafwyd Adroddiad diddorol gan y Llywydd o'i ymweliad a Chwmmawrdu. Rhoddodd arddeall i fod 12 o ymddiriedolwyr newydd wedi eu penodi ar y capel a'r eiddo. Pasiwyd fod cyflwr Cwmmawrdu i gael ystyriaeth bellach yng Nghyrddau'r Hydref pryd y disgwylir y bydd ewyllys y diweddar Barch. William Rees at law i'w hystyried.

Addawodd y Parch. T. Arthur Thomas, y gwnai ofalu cael plan a mesuriadau y capel a'r tir perthynol iddo yn Rhydyparc erbyn y cyrddau nesaf, fel y gellir tynnu allan weithredoedd ar y lle yn ddioed. Cafwyd hefyd adroddiadau diddorol gan y Parch. Lewis Williams o'i ymweliad

a Rhydyparc a'r Parch. D. G. Rees o'i ymweliad a chyfarfodydd y Gymdeithas Undodaidd Frydeinig a Thramor. Datganwyd diolchgarwch cynnes iddynt am danynt.

Pasiwyd ymhellach : (a) Fod y Gymdeithas yn cynnal gwasaneth yn Rhydyparc unwaith yn y flwyddyn. (b) Ein bod yn estyn cefnogaeth gynnes i'r Eglwys ym Mwlchyfadfa gyda'i chynllun o adeiladu festri a thy capel. (c) Fod Cyrddau Hydref l'w cynnal yng Nghaeronnen. (d) Fod yr oll o'r swyddogion yn cael eu hail-ethol. (e) ein bod, tra yn datgan diolchgarwch cynnes i'r Parch. T. Arthur Thomas am olygu YR YMOFYNYDD am y cyfnod maith o 24 mlynedd, yn deibyn ei ymddiswyddiad o'r olygyddiaeth gan adael y mater o ddewis olynydd iddo hyd gyrddau'r Hydref. (f) fod y mater o newid pwlpudau i gael ei ohirio hyd yr Hydref. (g) Fod cyfarfod y bore yn nghyfarfodydd y Pasc a'r Hydref yn cael eu cario mlaen ar linellau cynadledd er ystyried materion perthynol i lwyddiant ein heglwysi a'n hysgolion sul. (h) fod Mr. Tom Davies, Dewi Villa i ddarllen papur yng nghynadledd yr Hydref.

PRYDDEST-GOFFA

Gadeiriol yn Eisteddfod Talgarreg, Ebrill, 1924, am y diweddar Mr. Thomas Thomas," ***Y Teiliwr,"*** *Green-grove (Gelli-werdd), Talgarreg.*

A mi un dydd ym Mwlch-y-fadfa draw,
Mi roddais dro i'r Fynwent sydd gerllaw,
A throediais lwybr coch, coch oedd gan aml droed
Fu'n troedio at y bedd, y bedd lle rhoed
"Y Teiliwr" ; a daw eto lawer un
At lan ei fedd, heblaw ei deulu'i hun.
Yno mae "pleth-dyrch" lu yn cuddio man
Ei fedd ; arwyddion parch a roddwyd gan
Ei gyd-werinwyr hoff ; heb fynd yn wyw
Mae'r blodau eto, fel pe'n dweyd mai byw
Yw y cymeriad mawr sydd yn y gro
Yn serch calonnau cynnes gwŷr y fro :
Ei wen-fro fâd o'i ol i gyd sy'n brudd ;
Sôn am ei enw geidw'n hir ei grudd
Yn wlyb ; "Y Teiliwr," dyna'i enw mâd,
A'r enw garai ef gan werin gwlad.
Nid syn i mi yw gweled gruddiau llaith,
Am un oedd mor egniol ym mhob gwaith,
A gydiai'i law,
Hen gyfaill pur ei foes,
A'i gariad mawr yn fyw i angen oes.
Ni bu un mudiad yn y fro yn llawn
Heb help "Y Teiliwr" a'i arweiniol ddawn ;
Ei bresenoldeb, a'i chwerthiniad iach
Oedd ddigon i hud-ddenu plentyn bach.
Ei le fydd mwy yn wag am gyfnod maith,
Ymado wnaeth ar bwys ei "offer gwaith."
Bydd ôl ei waith yn aros yn y fro
Tra llifa'r Gletwr heibio dros y gro.
Bydd ôl ei waith, gwaith na ŵyr llawer un !
Ni chanai'r "Teiliwr" glychau clod ei hun.

* * * * *

Yn fab y werin ganwyd ef
Ym Mwth "Rhydwen" yn bell o dref,
Ac yno mewn awyrgylch iach
Yn Gerddor aeth yr hogyn bach.

Fe glywai'r hedydd uwch ei ben
Bob boreʼn canu yn y nen.
Fe glywai'r gog a'i deu-nod mwyn
Tu ol i'r bwth, ar uchel lwyn.
Yng nghoedwig "Henbant" oedd
ger-llaw
Fe glywai ganu yn ddi-daw.
Islaw y clywai'r "Glowon" iach
Yn eco cwm "Blaen-glowon-fach."
Yn sŵn y gerdd, ar dde, ar chwith,
Aeth yntau'n gerddor yn eu plith.
Dylanwad y telynau mân
Drodd yn ei fywyd ef yn gân.

Bob Sul yr elai'n llaw ei fam
I Bwlch-y-Fadfa'n fyr ei gam,
A threiddiodd mawl y Sul, mi wn,
Trwy enaid byw yr hogyn hwn.
Yn sŵn y gerdd, o awr i awr,
Fe dyfodd gyda'r gerdd yn fawr.

Bu'n cerdded trwy y gwynt a'r glaw,
Gan ddringo'r rhiw i'r capel draw,
I ddysgu "dosbarth" o rai mân,
A'u harwain ar hyd llwybrau cân.
Bu wrthi'n ffyddlon a di-ball
Yn dysgu tô ar ol y llall
O nwyfus blant y werin dlawd,
Mewn rhin a moes a sanctaidd nawd:
Caiff "Athro Ysgol" daliad llawn
Am ro'i i'r plant o oreu'i ddawn.
Caiff y "Gweinidog" am bob Sul
Ei dâl am nodi'r "llwybr cul"
Nid oedd un tâl am ddysgu'r gerdd
I'r "Teiliwr" mwyn o'r Gelli-werdd.
Aeth trwy bob hin, mae "rhywun"
ŵyr,
I'r "Ysgol Gân" ar lawer hwyr.
Bu'n dysgu'r plant yn y Sol-ffa,
A'i dâl oedd canu,—canu da.

Dros achos da y Bwlch drwy'i oes
Bu ef yn cario llawer croes.
Fe'i cariai'n llawen, fel ei hun,
Di-rwgnach oedd o dan bob un.
Mae'r Capel hardd, cof-golofn gref,
Yn sôn am egni'i ysgwydd ef.

Efe oedd yn "Weledydd" mawr,
O fewn y nôs fe welai'r wawr.
Gwna "Neuadd Goffa" bro ei hun
Ei goffa ef yn fwy na'r un.
Er coffa arwyr, "aberth trin"
Y bu e'n gweithio mor ddi-flin,
Y "cyngor" bach fu lawer tro
Yn dweyd na ddeuai byth i'r fro
Un "Neuadd" hardd; ond ef trwy
ffydd
Fu'n troi y nôs i'w fro yn ddydd.
Ei ddelfryd tlws a ddaeth i ben
Cyn iddo groesi "hwnt i'r llen."
Cof-golofn hardd o'i lafur gwiw
Yw'r "Neuadd Goffa" uwch y rhiw.

Gofalus oedd o'i deulu mâd,
Fe garai'i blant â chariad tad,
A chawsant ganddo freintiau cûn
Tu hwnt i'w freintiau ef ei hun.

Bu aelwyd hapus Gelli-werdd
Am gyfnod yn athrofa cerdd.
Os byddai 'steddfod yn y fro
Y cystadleuwyr yn eu tro
A ddeuent at y Teiliwr mâd,
Gan dderbyn ei gynorthwy rhad.
Enillodd ef lawryfau lu
Mewn eisteddfodau'r blwyddi fu.

Ni fydd ef mwy'n ei "Weithdy" clyd
Bu'm yno droion, gwyn fy myd!
Eisteddai ef ymhleth ar fwrdd
A ninnau yno lu yn cwrdd.
Tra'n pwytho'n 'mlaen, a'i bwys ar lin,
Cwestiynau dyrus gawsai'u trin.

Rhyddfrydwr oedd yn ffrynt y gâd,
Mewn delfryd bur fel Deio'i dad;
A llawer tro'n ei "Weithdy" bach
Bu'n dadleu dros Ryddfrydiaeth iach,
A llawer un yn teimlo'n ddrwg
Ei hwyl, a'i aeliau'n ddu gan wg;
Ond ymwahanai pawb yn dda
Tra chwarddai'r "Teiliwr" cu, Ha!
Ha!!
Nid oedd a chwarddai fel efe,
Fe chwarddai nes gwefreiddio'r lle.
I mi mae'n dal o hyd i fyw
Tra deil ei chwarddiad yn fy nghlyw.

Ni chawn ef mwy i agor drws
Llawn croesaw mewn i'w "Weithdy"
tlws,
Ni chawn ni gwmni'r galon iach
A ddenai oreu plentyn bach.
Ni chlyw'r gwerinwyr syml un iaith
Fu'n cyrchu ato lawer gwaith,
Fyth neb fel ef, dadlennai'n rhydd,
Awdurdod oedd ar "bynciau'r dydd."

* * * * *

Mae bwthyn gwyn "Rhydwen" o hyd
Yn dal heb wyro dan ei do,
Mae'r "telynorion" yno'i gyd
Pan fyddo gwanwyn yn y fro.
Mae'r gornant yn y cwm islaw
O hyd yn dal i ganu'n iach,
Ni wyr am hiraeth "bro" gerllaw
Di-daw yn canu'r "Glowon" fach.
Mud yw'r gwerinwr hwnnw fu
Ar hyd ei glannau'n dysgu'r gerdd ;
O'i dewi ef mor brudd yw llu
Heblaw ei deulu'n Gelli-werdd.
Y delyn fiw ar helyg sydd,
Ac ardal gyfan dan ei chlwy,
D'wed nodau lleddf y "fro" bob dydd
Am gymwynaswr nad yw mwy.

* * * * *

Mae'r gân yn aros yn ein clyw,
A'r Cerddor fry ar Fynydd Duw.

Talgarreg. AP DULAS.

YSBRYDOLIAETH PAUL.

(*Parhad o rhifyn Gorffenaf.*)

Cyfateba ysbrydoliaeth Paul, fel y'i darlunir ynddo ef ei hunan, a'r olwg hon. Crist oedd ddatguddiedig ynddo ef. "Canys Duw yw'r hwn a lewyrchodd yn ein calonnau, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist."

Ni a welwn yn achos Paul, nad oedd yr ysbrydoliaeth mewn un modd yn ymyrryd â gweithrediadau rhyddaf ei feddwl ; ni wnaeth na dileu na chyfnewid ar unwaith ei hen olygiadau ; gadawodd yno lawer o olion ei hen gredau Iddewig. Ac yn raddol yn unig y cyfnewidiwyd ef drwy adnewyddiad ei feddwl. Mae'r fath ddylanwad ysbrydol mawr yn cyffroi anianawd pob un o'r apostolion. Drachefn, dengys le ac amcan diwinyddiaeth. Nid adnabu y byd mo Dduw trwy ddoethineb. Nid oes dim ond purdeb calon fedr weld Duw. Symledd enaid ddarganfydda Duw. Mae yna ffolineb dwyfol, fel y geilw dynion ef, doethach na doethineb, cryfach na chryfder. "Eithr Duw a etholodd ffol bethau y byd fel y gwaradwyddai y doethion ; a gwan-bethau y byd a etholodd Duw fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn . . . . a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd." Ac eto, pan mae'r nôd yn cyfarfod â gwrthwynebiadau, at ateb dadleuwyr ac ateb cwestiynau y rhai sydd mewn angen am oleuni, teifl Paul ei holl feddwl i'w ymresymiad, ac ni âd un cwestiwn athrawiaethol heb ei chwilio, nac un pwnc diwinyddol heb ei ddehongli.

Nid yw anffyddiaeth yn blino Paul. Ystyriwn y weddi ryfeddol hono a offryma dros Gristionogion isel Ephesus, y rhai ydynt eto mor anatblygedig fel y gofodir ef i'w cynghori hwynt i beidio lladrata, i beidio dywedyd celwydd, i beidio meddwi, i ochel ymddygiad aflednais ac afreolus, gwasgariad ffol, iaith lygredig a llygrol. Isel i lawr fel yr oeddynt, ac annysgedig fel yr oeddynt, gallai ef eto obeithio a gweddio drostynt gan ddywedyd : "Oherwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist, ar roddi ohono ef i chwi, ar fod wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei ysbryd ef ; ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich colonnau chwi ; fel y galloch, wedi eich gwreiddio, a'ch seilio mewn cariad, amgyffred beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchter ; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw."

Hyn yw ei syniad ardderchog ef am bosibilrwydd cynnydd; diwylliant moesol, ysbrydol, deallol. Gwreiddyn a sylfaen yr oll yw cariad, —cariad syml, hunan-anghofus, hael. Dyna'r hâd allan o'r hwn y tyf yr oll. Os meddwn ni y cariad hwn, yna Crist, yw cariad, a drig yn ein calonnau. Yna egyr y rhagolwg am gynnydd diderfyn ger ein bronnau,—yn ei hyd, ei led, ei ddyfnder, a'i uchter.

Y fath ffydd oedd gan yr Apostol yng nghallu dyn a nerth yr Efengyl pan gallai weddio y fath weddi dros ei ddisgyblion! Y fath obaith am yr holl hil ddynol a oleuai ei galon ynghanol oriau trist ei garchar unig! Fel yr agoshâi ef at ddiwedd ei fywyd, a'r gadwyn Rufeinig boenus yn rhewi ar ei aelodau stiff, heb gâr na chyfaill yn agos iddo, a'r eglwysi a sylfaenwyd ganddo eto'n llawn drygau, deuai'n fwy sicr o fuddugoliaeth daioni dros bob drwg. Ymddangosai fel pe'n methu caffael iaith ddigon nerthol i osod allan ei ffydd.

Ond er cymaint ymlyniad Paul wrth Grist, ni feddyliodd erioed am funud am dano fel yn gydradd a'r Tad goruchaf ac anfeidrol. Medd Paul, "A phan ddarostynger popeth iddo, yna y Mab ei hun a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bopeth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll."

Cwestiwn a gwyd yn naturiol yn y fan hyn yw hwn: os nad achubodd Ysbrydoliaeth Paul ef rhag camsyniadau, sut mae gwahaniaethu rhwng y rhan ysbrydoledig o'r ddysgeidiaeth a'r rhan nad yw.

Nis gwyddom am well ateb na hwn: mae gwirionedd ysbrydoledig yn llawn gallu bywiol. Mae'n bywhau y deall, y dychymyg, a chariad. Crea gymeriad, newidia gred, gyrra ymaith ragfarn, adeilada i fyny gymdeithasau.

C.C.

MARWGOFION.

GORFFENNAF 7, yn 48 mlwydd oed, Anne Davies, Winllan, Pantdefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn wyres i'r diweddar Lewis ac Anne Thomas, gynt o Ffynnonsaer. Collodd ei mam pan yn ieuanc, a dygwyd hi i fyny gyda'i thadcu a'i mhamgu. Ni fu'n feddiannol ar gyfansoddiad cryf, ond 'roedd ynddi ysbryd rhagorol. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Capel Pantdefaid er yn ieuanc, ac ni fuasai ei lle'n wâg yn y cwrdd, yr Ysgol Sul, na'r Ysgol Gân, oddigerth pan yn cael ei rhwystro gan afiechyd. Yr oedd hefyd bob amser yn barod i gynnorthwyo gyda phob achos da ynglyn â gwaith yr eglwys, a bydd ei lle yn wâg iawn yno. Y dydd Iau dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi yn naear mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins, Glyn Edwards, Cwrtnewydd; R. H. Williams, Carmel, ac R. Morris, Penybont. Gadawodd gylch helaeth o berthynasau mewn galar o'i cholli. Arosed ei ffyddlondeb a'i sêl dros yr achos goreu yn ysbrydiaeth yn y cylch adawodd.

AR y 7fed o Orffennaf, bu farw John Rees, annwyl faban W. H. a Jane Jones, Cwmhendryd, yn fis oed. Claddwyd ym mynwent Capelygroes y dydd Mercher dilynol.

AR y 15fed o Orffennaf, yn 89 oed, bu farw Anne Williams, gweddw y diweddar David Williams, Heol y

Bont, Llanybyther, a mam i Mr. Williams, o'r un lle, a Mrs. Sturdy. Mwynhaodd iechyd da trwy ei hoes faith hyd y daeth gwendid henaint. Er iddi gael oes faith, y mae hiraeth ar ei hol. Hiraethed ei phlant mewn gobaith. Cafodd bob gofal a thynerwch hyd y diwedd. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Aberduar y dydd Gwener canlynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gweinyddwyd gan y Parch. D. C. Griffiths, gweinidog y lle.

AR y 18fed o Orffennaf, bu farw Anna Jenkins, gweddw y diweddar Benjamin Jenkins, Tynberth, ger Cribyn, yn 89 oed. Mwynhaodd iechyd cymharol dda drwy ei hoes; yn ddiweddar, yn ychwanegol at lesgedd henaint, fe'i blinid yn achlysurol gan y *Bronchitis*. Ni fu ei chystudd olaf ond byr. Yn mlynyddoedd ei henaint cafodd bob gofal a thynerwch oddiar law ei mab a'i merch, a gartrefai gyda hi. Yn ychwanegol at y ddau hyn, yr oedd iddi bump o blant eraill yn fyw, yr oll mewn safleoedd dymunol a chysurus; yr oedd iddi, hefyd, nifer luosog o wyrion. I'r oll, teimlad o hiraeth berir gan ei cholli. Bu'n wraig a mam dda a gofalus, yn gymydoges a berchid gan bawb a'i hadnabyddai ar gyfrif ei rhodiad cywir a glan Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Dihewid, i ymyl ei phriod a'i phlant, dydd Mercher dilynol, gan dyrfa luosog. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Islan Jones, M.A., a Conwil Evans. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan Ficer Dihewid. "Ei phlant a goddant, ac a'i galwant yn wynfydedig."

GORFFENNAF 25, yn 88 mlwydd oed, Mary Jones, gweddw y diweddar Evan Jones, Bryngwine, Llanwenog. Cafodd ei bendithio ag iechyd da ar hyd ei hoes, ac ni chafodd ei chystuddio yn y diwedd ond am ychydig ddyddiau. Gan fod ei hoes wedi bod yn un mor faith, gwelodd amser pan yr oedd amgylchiadau bydol pobl yn gyffredin yn isel, a'i hamgylchiadau hithau a'i theulu yr un fath. Llafuriodd yn galed y pryd hwnnw, a gwnaeth ei rhan yn ganmoladwy i gyfarfod ag anghenrheidiau y teulu. Un syml, unplyg, a naturiol ydoedd; nid oedd yn gofalu am farn arall o berthynas i unrhyw beth yn ei bywyd, ond bob amser yn gweithredu oddiar syniad o iawnder. Yr oedd y gonestrwydd hwn a berthynai iddi wedi enill iddi barch ymhlith ei chydnabod, a chafwyd prawf o hynny ar ddydd ei hangladd pan y daeth torf fawr yng nghyd. Claddwyd yng Nghapel-y-bryn. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capel-y-groes; pregethwyd yn y capel gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, oddiar destyn ag oedd wedi cael ei ddewis gan yr ymadawedig, "Mi a ymdrechais ymdrech deg." Gweddiwyd ar lan y bedd gan gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Gadawodd ddau fab, un ferch a mab yng-nghyfraith, ac wyrion, ynghyd a pherthynasau agos eraill i alaru ar ei hol.

GORFFENNAF 30ain, Sarah Anne merch annwyl i Evan ac Eleanor Evans, Glantre, Llandysul yn 16 oed. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Bwlchyfadfa lle gorwedd gweddillion brawd bychan iddi, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Yr oedd y cynhebrwng yn un lluosog iawn a chredwn ei fod felly yn rhannol o gydymdeimlad a'r rhieni a'r teulu yn eu trallod, ac yn rhannol oherwydd ei bod wedi ei symud mor gynnar a hithau yn eneth mor ddiniwed a hawddgar Yr oedd o ysbryd addfwyn ac o dymer garedig, siriol a byth nis gwelsid hi nad oedd gwen ar ei hwyneb. Yr oedd iddi lu o gyfeillion, yn enwedig o gyfeillion ieuainc—fedrai neb fynd o hyd iddi heb fynd yn ffrind iddi. Credwn fod yna lu, heblaw y teulu a'r perthynasau, yn wylo ei cholli. Dywedai y plethdorchau ar ei bedd ddydd ei hangladd fod un anwyl wedi mynd. Bu yn ffyddlon iawn gyda'r achos yn y Bwlch—yn y Gwasanaeth, yr Ysgol Sul, a'r Ysgol

Gân, ac yn Nghyfarfodydd y Plant yr oedd yn flaenllaw gyda'r adrodd a'r canu. Cymharol fyr fu ei chystudd—dioddefodd oddiwrth yr un dolur a Telynog a Ben Bowen—ac aeth drwyddo yn ddirwgnach ac amyneddgar. Derbynied y teulu ein cydymdeimlad dwysaf, a boed iddynt gael nerth i gario'r groes hon eto yn wrol a ffyddiog. "Ni chai di fynd dros yr Iorddonen hon."

AWST 6, yn 91 oed, David (Deio) Evans, Gwarcwm, Llandysul, gan adael merch, dau fab, nifer luosog o wyrion, a pherthynasau ereill, i weld a theimlo ei eisieu. Cydymdeimlwn â hwynt yn eu hiraeth—collasant un a anwylent yn fawr, ac nid syndod hynny, canys yr oedd o ysprydhynaws a diddig rhyfeddol. Byth ni chlywid gair uwch na'r llall o'i enau ef, ac nid oedd y duedd o dynnu'n groes yn ei anian. Perthynai i deulu a fu'n flaenllaw iawn gyda'r achos yn Llwynrhydowen yn y dyddiau a fu, sef teulu Pantiorlech, ond pan syrthiodd efe diflanodd yr olaf o'r teulu hwnnw. Gofynwn gyda'r proffwyd, "Y tadau, pa le y maent hwy?" Mwynhaodd iechyd da bron hyd derfyn ei oes, ac yna gwaelodd yn raddol hyd nes daeth y terfyn. Bydd ei le yn wâg iawn ar yr aelwyd, yn bennaf i'r teulu, ond hefyd i'r llu mawr cymydogion ydynt arferol o alw yn Gwarcwm. Yr oedd yn gwmni diddan, diddig, a siriol. Pan yn ddyn ieuanc bu allan yn Awstralia am tua dwy flynedd, a diddorol iawn oedd gwrando arno yn myn'd dros helyntion y dyddiau hynny. Yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd cafodd lawer ergyd drom. Collodd ei briod, tri o blant, dwy chwaer, a llawer o hen gyfoedion, a chredwn fod yr ergydion hyn wedi ei addfedu i fyn'd ar ei hôl. Bu farw fel Abraham ac Isaac yn "hen ac yn gyflawn o ddyddiau," ac fe'i claddwyd mewn parch yn mynwent Llwynrhydowen y Sadwrn dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

AWST 11, Samuel Evans, Llwyn Smithy, Llwynrhydowen, Llandyssul, yn 71 oed. Gadawodd mewn galar bedair merch, tri mab, a llawer o berthynasau ereill. Am flynyddoedd meithion bu'r ymadawedig yn gweithio ar yr heol o dan y Cynghor Sir, a chyfrifid ef yn weithiwr deheuig a ffyddlon. Nid beth yw'r alwedigaeth yw'r pwnc mawr, wedi'r cwbl, ond sut y cyflawnir dyleddswyddau'r alwedigaeth. Gwell bod yn llafurwr da nag yn frenin gwael. Dechreuodd glafychu tua dwy flynedd yn ol, pryd y bu raid iddo ro'i i fyny ei waith. Clafychodd yn raddol, ac ar adegau dioddefai yn dirfawr. Bydd ei le yn wâg yn yr ardal, canys yr oedd yn gwmni diddan ac yn gymydog parod i gymwynas. Bydd ei le yn wâg iawn hefyd yn y cartref, a thebyg mai'r ferch a gadwai gartref iddo wêl fwyaf o'i eisiau. Claddwyd y Gwener canlynol yn Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

BEDDARGRAFF DYN IEUANC.

Wele orweddle ireiddlanc ;—daear
Yw diwedd dyn ieuanc :
Pob hoenus olygus lanc
Yno ddaw, ac ni ddïanc.

ROBIN DDU O FEIRION.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL. — Cydnabyddir yn ddiolchgar y symiau a ganlyn—

	£	s.	c.
Y Graig, Llandyssul ...	2	0	9
Pantydefaid	1	9	5
Capel y Groes... ...	0	18	0
Alltyblacca	0	10	9
Caeronnen	0	8	0

Y cyfanswm yn llaw y Trysorydd ar y 26ain o Orffennaf oedd £24 13s. 3c.

Cledlyn Davies.

DYWEDIR fod y syniad am yr "Ail Ddyfodiad" yn ffynnu yn bennaf yn mhlith y Bedyddwyr, ond fe'i ceir hefyd yn yr Eglwysi Efengylaidd eraill.

FE gofia rhai am erthyglau diddorol Sion Llwyd yn yr hen YMOFYNYDDION, ond ychydig wyddant mai Thomas John Jones (Cynonwyson) oedd Sion Llwyd.

DYWED rhai mai Tomos Llewelyn o'r Rhigos oedd y cyntaf i gyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg.

"Y DDWY FUNUD DDISTAW."

Buddugol yn Eisteddfod Pantdefaid, Chwef. 1, 1924.

"Music, when soft voices die,
Vibrates in the memory."
P. B. Shelly.

Mae baner hedd uwch croesau'r beddau pell,
A dydd o aur yn llanw'r dyddiau gwell;
Goriffwysa'r arwyr draw mewn tawel hedd,
Ond "Pulpud Aberth" yw tywarchen bedd.

Aeth heibio'r adfyd, ei riddfannau oer
Anghofir heddyw tan y newydd loer;
A dirdra'r nos a gilia rhag y wawr
Sy'n araf gerdded at ddynoliaeth fawr.

A Thachwedd oer yn dod i lwybrau'r byd--
A môr o ing yn fflam yr aberth drud;
Yn swn yr awrlais bell sy'n taro'n glir—
Daw cof am fedd a chroes mewn estron dir.

Tawela'r byd, mae nos y trinoedd erch
Yn dangos bedd i reddfau puraf serch.
Ond erys yn nistawrwydd tir y byw,
Freuddwydion pur yn fflach o Gariad Duw.

Rhyw ddwyfol ust, sydd yn y bwth to gwellt,
A gruddiau "Mam" yn dangos ôl y mellt,—
O'r pell fudanrwydd, daw y gobaith iach,
Y caiff hi eto gwrdd a'i "Deio" bach.

Genethig wen, yn fflur ei ieuanc oed,
Yn rhodio'n unig ar hen lwybrau'r coed;
Daw adgof prudd am ing y dyddiau gynt,
Pan farw serch, yn niwl y pedwar gwynt.

Yn hedd yr "Un-ar-ddeg," sawl breuddwyd gwyn
Sy'n darfod fel yr eira ar y llyn;
Nis gall distawrwydd leddfu hiraeth dwys
Pan bydd gobeithion bywyd dan y gwys.

Blaencaron. H. O. EDWARDS.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.